Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol 2018-19

Gorffennaf 2019

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion er mwyn gwella eu bywydau. Mae'n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn trwy ei thîm gwaith achos ac yn gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod rhywun yn gweithredu yn eu cylch. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres unigryw o bwerau cyfreithiol i'w chefnogi i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal i gyfrif pan fo angen.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: ask@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Twitter: @talkolderpeople

Fformatau Hygyrch

Pe baech yn hoffi'r cyhoeddiad hwn mewn fformat ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae'r holl gyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn amrywiaeth o fformatau o'n gwefan.

Cynnwys

Cyflwyniad 4
Cydymffurfedd 5
Safonau Cyflwyno Gwasanaethau.....5
Safonau Llunio Polisïau.....5
Safonau Gweithredu.....6
Cadw Cofnodion.....7
Cwynion Iaith 7
Sgiliau Cymraeg Staff 8
Recriwtio.....9
Hyfforddiant 9

Cyflwyniad

Fel sefydliad annibynnol sy'n cael ei ariannu gan arian cyhoeddus, mae'n rhaid i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (y Safonau), sy'n nodi nifer o ffyrdd y mae'n rhaid i'r Comisiynydd ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a hwyluso a hybu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r Comisiynydd wedi'u rhannu'n bedwar categori:

- Cyflwyno Gwasanaethau
- Llunio Polisïau
- Gweithredu
- Cadw Cofnodion

Mae'r Comisiynydd wedi'i chyflwyno â 145 o safonau:

	Dyddiad Cydymffurfio: 25.01.17	**Dyddiad Cydymffurfio: 25.07.17**	**Cyfanswm**
Cyflwyno Gwasanaethau	71	0	71
Llunio Polisïau	15	0	15
Gweithredu	47	2	49
Cadw Cofnodion	9	1	10
Cyfanswm	**142**	**3**	**145**

Dyma'r trydydd adroddiad gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n rhoi manylion pa gamau a'r camau gweithredu sydd wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r Safonau.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar weithgareddau a wnaed rhwng y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019, yng nghyswllt y flwyddyn ariannol 2018/19.

Cydymffurfedd

Mae cydymffurfedd y Comisiynydd gyda'r safonau wedi ei osod isod.

Safonau Cyflwyno Gwasanaethau

- Mae cronfa ddata yn bodoli i gofnodi dewis iaith unigolion. Mae'r gronfa ddata hon yn cael ei diweddaru gan yr holl staff yn rheolaidd
- Mae'r holl saff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymateb i ohebiaeth (llythyrau a negeseuon e-bost), ateb y ffôn, trefnu a chynnal cyfarfodydd a chyfarch ymwelwyr.
- Mae'r holl lythyrau templed yn cydymffurfio â'r Safonau
- Mae system awtomatig ar gyfer y prif rif ffôn sy'n galluogi'r opsiwn i siarad ag aelod o staff yn Gymraeg
- Mae'r holl negeseuon peiriant ateb yn ddwyieithog, gyda Chymraeg gyntaf
- Mae'r holl staff yn ateb y ffôn yn ddwyieithog, Cymraeg gyntaf
- Mae'r holl ddogfennau sy'n cael eu cynhyrchu ar gyfer defnydd y cyhoedd yn ddwyieithog, gan ddefnyddio'r fformat wyneb i waered (mae adroddiadau hirach yn cael eu creu ar wahân yn y ddwy iaith) yn safonol
- Gofynnir i fynychwyr cyfarfodydd am eu dewis iaith. Os bydd mwy na 10% yn nodi eu bod yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg, bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu
- Mae'r holl hysbysiadau ac hysbysebion cyhoeddus yn ddwyieithog
- Mae gwefan y Comisiynydd yn ddwyieithog
- Mae unrhyw arwyddion yn y swyddfa yn cydymffurfio
- Mae'r holl dendrau contract yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog ar wefan GwerthwchiGymru
- Bydd tendrau a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg a bydd unrhyw gyfweliadau yn cael eu cynnal gyda chymorth cyfieithydd ar y pryd

Safonau Llunio Polisïau

- Mae'r holl saff wedi derbyn hyfforddiant ar Safonau Llunio Polisïau
- Bydd yr holl staff yn ystyried effaith unrhyw bolisi newydd (neu ddiwygiadau i bolisi) ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Mae canllaw Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg wedi'i greu i gynorthwyo staff i gwblhau Asesiad o'r effaith ar yr Iaith Gymraeg

- Yn ystod y cyfnod, cynhaliwyd Asesiad o effaith yr iaith Gymraeg ar brosiect Ail-ystyried Seibiant y Comisiynydd
- Os bydd ymchwil yn cael ei gomisiynu â'r bwriad i gynorthwyo â chreu polisi, bydd staff yn sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut bydd y penderfyniad polisi yn cael ei wneud fel nad yw'n cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg

Safonau Gweithredu

- Mae polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg wedi'i gyhoeddi ar y wefan
- Gofynnir i'r holl staff a hoffent dderbyn eu contract cyflogaeth yn Gymraeg ac mae'r canlyniadau yn cael eu nodi
- Gofynnir i'r holl staff a hoffent dderbyn unrhyw ohebiaeth bapur yn ymwneud â'u cyflogaeth ac sydd wedi ei chyfeirio ato ef neu hi yn bersonol yn Gymraeg ac mae'r canlyniadau yn cael eu nodi
- Gofynnir i'r holl staff a hoffent dderbyn unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud a'u hanghenion hyfforddiant a'u hamcanion perfformiad yn Gymraeg ac mae'r canlyniadau yn cael eu nodi
- Mae'r Comisiynydd wedi holi'r holl staff a hoffent dderbyn ffurflenni sy'n nodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldebau o'r gwaith ac oriau gweithio hyblyg yn Gymraeg
- Mae'r holl bolisïau yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog ar y gyriant lle mae modd rhannu mynediad
- Mae'r holl staff yn ymwybodol eu bod yn gallu cyflwyno cwynion yn Gymraeg a bod ganddynt yr hawl i ymateb i gŵyn a wnaed amdanyn nhw yn Gymraeg
- Cynigir cyfle i'r holl staff gynnal cyfarfodydd ynghylch cwynion a wnaed amdanyn nhw yn Gymraeg (gan ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd)
- Bydd unrhyw gofnod o benderfyniad yn ymwneud â chwyn yn erbyn aelod o staff yn cael ei gyflwyno yn Gymraeg
- Mae'r holl bolisïau yn cydymffurfio â'r Safonau
- Mae meddalwedd cyfrifiadurol wedi ei ddarparu i'r holl aelodau staff sydd ei angen i wirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg (Cysgair a Cysill)
- Mae sgiliau Cymraeg yr holl staff wedi cael eu hasesu trwy hunanasesiad (gweler adran Sgiliau Cymraeg Staff)
- Mae'r Comisiynydd wedi darparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i staff dderbyn hyfforddiant Iaith Gymraeg. Yn ystod 2018/19, fe gafodd yr holl staff y cyfle i fynychu gwersi Cymraeg ar ddydd Llun ar lefelau mynediad, canolradd neu uwch

- Mae gwybodaeth am godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei darparu i'r holl staff newydd fel rhan o'u proses gynefino
- Mae geiriad a logo wedi cael eu darparu ar gyfer llofnod e-bost staff i hysbysu pobl os ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu ddysgwyr
- Mae sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd neu wag yn cael eu hasesu (gweler yr adran Recriwtio)
- Mae swyddi yn cael eu hysbysebu yn ddwyieithog ac yn nodi'r sgiliau iaith angenrheidiol
- Mae hysbysebion yn nodi bod y Comisiynydd yn croesawu ceisiadau Cymraeg
- Mae'r holl wybodaeth ynghylch recriwtio yn cael ei chyhoeddi yn ddwyieithog
- Mae ffurflenni cais yn darparu lle i unigolion nodi os ydynt yn dymuno defnyddio Cymraeg yn y cam cyfweld a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os oes angen
- Bydd unrhyw arwyddion newydd yn cael eu harddangos yn ddwyieithog â'r Gymraeg gyntaf

Cadw Cofnodion

- Mae'r Comisiynydd yn cadw cofnod o nifer y cwynion mae hi'n ei derbyn yn ymwneud ag ein cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg
- Mae'r Comisiynydd yn cadw copi o unrhyw gwynion mae hi'n eu derbyn yn ymwneud â'r Safonau
- Mae'r Comisiynydd yn cadw cofnod o gamau a gymerwyd i gydymffurfio â'r Safonau Gwneud Polisïau
- Mae'r Comisiynydd yn cadw cofnod o sgiliau Cymraeg yr holl staff ac yn cadw'r hunanasesiadau
- Mae'r Comisiynydd yn cadw cofnod o'r asesiadau mae hi'n eu cynnal ar gyfer sgiliau Cymraeg swyddi newydd neu wag
- Mae'r Comisiynydd yn cadw cofnod o sut mae'r holl swyddi newydd neu wag wedi cael eu categoreiddio o ran y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen

Cwynion Iaith

Yn ystod 2018/19, ni dderbyniwyd cwyn ynghylch cydymffurfedd y Comisiynydd â Safonau'r Gymraeg.

Sgiliau Cymraeg Staff

Ar 31 Mawrth 2019, cyflogodd y Comisiynydd 18 aelod o staff. Cynhaliwyd arolwg y Gymraeg yn ystod Mawrth 2019. Ymatebodd yr holl staff i'r arolwg. Mae'r canlyniadau wedi'u nodi'n fanwl isod:

Adran	Llesiant a Grymuso*	Materion Corfforaethol**	Comisiynydd	Cyfanswm
Nifer y staff	10	8	1	19
Dim Sgiliau	2	0	-	2
Mynediad	3	3	1	7
Sylfaen	0	2	-	2
Canolradd	1	1	-	2
Uwch	0	1	-	1
Rhugl	4	1	-	5

*Mae'r adran hon yn cynnwys Uwch Weithwyr Achos y Comisiynydd sy'n rheoli ymholiadau gan y cyhoedd

**Mae'r adran hon yn cynnwys staff cymorth gweinyddol rheng flaen y Comisiynydd.

Lefel	Band					Cyfanswm
	B	C	D	F	Com	
Dim Sgiliau	0	0	2	-	-	2
Mynediad	1	2	3	-	1	7
Sylfaen	2	0	0	-	-	2
Canolradd	0	1	1	-	-	2
Uwch	0	0	0	1	-	1
Rhugl	2	2	1	-	-	5

Recriwtio

Yn ystod 2018/19, hysbysebwyd un rôl: Arweinydd Cymunedau, Llywodraeth Leol a Chydraddoldeb. Cafodd y rôl hon ei chyfrif fel ‘Cymraeg hanfodol’ sy’n nodi bod y gallu i siarad Cymraeg yn rhugl a'r gallu i gynnal cyfweliad gyda’r cyfryngau trwy'r Gymraeg yn hanfodol.

Hyfforddiant

Ni chafodd unrhyw hyfforddiant ei gyflwyno yn Gymraeg na Saesneg ar bynciau megis recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwynion a threfn disgyblu, y broses cynefino, delio â’r cyhoedd ac iechyd a diogelwch.